Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2024

Cyflwyniad

Trosedd yw caethwasiaeth fodern ac mae'n ymyrryd â hawliau dynol sylfaenol. Gall fod ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, gweithio gorfodol a gweithio drwy orfodaeth a masnachu pobl. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod rhyddid unigolyn yn cael ei amddifadu gan unigolyn arall er mwyn eu hecsbloetio, yn bersonol neu'n fasnachol.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein harferion ar gyfer gwrthsefyll caethwasiaeth a masnachu pobl. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymrwymo i ddeall risgiau caethwasiaeth fodern a sicrhau nad oes caethwasiaeth fodern yn ein busnes ein hunain nac yn ein cadwyni cyflenwi.

Mae'r datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac yn ffurfio ein datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl am y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 30 Medi 2024. Hefyd, mae'r datganiad hwn yn nodi ymrwymiadau CBAC o ran Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi y mae CBAC wedi ymrwymo i'w gefnogi.

Strwythur Trefniadaeth

Elusen gofrestredig yw WJEC CBAC Limited a chwmni a gyfyngir drwy warant wedi'i reoli gan Fwrdd Cyfarwyddwyr.

Cymerodd y cwmni gyfrifoldebau a gweithgareddau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru gynt mewn perthynas â chymwysterau ac adnoddau addysgol ac etifeddodd asedau a rhwymedigaethau'r corff hwnnw ar 1 Ebrill 1996. Daeth y cwmni yn elusen gofrestredig ar 15 Ionawr 1999.

Mae ganddo is-gwmni hefyd sef WJEC CBAC (Services) Limited, sy'n cynnig gwasanaethau argraffu a chyhoeddi arbenigol i gefnogi swyddogaethau craidd CBAC.

Mae CBAC yn brif gorff dyfarnu a chanddo fwy na 70 mlynedd o brofiad o ddarparu cymwysterau. CBAC yw'r prif ddarparwr yng Nghymru ac mae'n un o brif ddarparwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cyflogir oddeutu 500 o staff gan CBAC, ac mae'r mwyafrif o'r rhain wedi'u lleoli mewn swyddfeydd modern yng Nghaerdydd. Lleolir ail safle o berchnogaeth CBAC ar gyrion Caerdydd ger Stad Ddiwydiannol Trefforest.

Mae cyfrifoldebau ac allbynnau CBAC yn ymwneud â thri phrif faes:

- Cymwysterau ac Asesu
- Adnoddau Addysgol
- Datblygiad Proffesiynol a Chefnogaeth

Mae hwn yn gorff gydag enw da hirsefydlog y mae'n falch ohono. Mae ganddo weithlu cryf ac ymrwymedig y mae'n amlwg ei fod yn gweithio er mwyn ei gwsmeriaid ac er mwyn i CBAC dyfu a datblygu i fod yn un o'r prif ddarparwyr cymwysterau ac asesu

Polisïau

Mae CBAC yn parhau i adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau i sicrhau ei fod yn cadw at ei ymrwymiad i weithredu'n foesegol, gydag uniondeb, ym mhob perthynas fusnes sydd ganddo. Mae'n bwriadu rhoi systemau a rheolaethau effeithiol ar waith, a'u gorfodi, i leihau'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw le yng nghadwyni cyflenwi CBAC/

Mae'r polisïau a'r prosesau sydd ar waith yn cynnwys:

- Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol
- Polisi recriwtio a dethol a phrosesau wedi'u profi
- Cytundebau gweithio hyblyg
- Proses Werthuso Swyddi ddadansoddol, yn berthnasol i bob swydd yn y corff i sicrhau bod cyflog cyfartal am waith cyfartal
- Cod Ymddygiad sy'n nodi'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ran ymddygiad yn y corff
- Polisi Chwythu'r Chwiban y mae'n bosibl ei ddefnyddio i godi unrhyw faterion caethwasiaeth neu fasnachu pobl
- Polisi Gweithwyr Asiantaeth i sicrhau bod hawliau gweithwyr asiantaeth yn gymaradwy â hawliau staff parhaol
- Cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod amodau gwaith yn ddiogel ac yn hylan
- Undeb Llafur cydnabyddedig, UNSAIN a
- Chydymffurfiaeth â Rheoliadau Ariannol.

Ein Cadwyni Cyflenwi

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'n busnes. Rydym yn parhau i adolygu ein polisïau a gweithdrefnau gweithle i asesu pa mor effeithiol ydynt o ran nodi ac ymdrin â materion caethwasiaeth fodern. Bydd CBAC hefyd yn ystyried unrhyw bolisi y mae'r llywodraeth yn ei gyflwyno o'r newydd ynghylch cadwyni cyflenwi moesegol.

Yn ein gweithle, mae unrhyw bolisïau a gweithdrefnau yn dangos ein bod wedi ymrwymo i weithredu mewn ffordd foesegol, gydag uniondeb, ym mhob un o'n cysylltiadau busnes. Byddwn ni'n gweithredu ac yn gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw le yn ein cadwyni cyflenwi.

Mae CBAC yn adolygu pob cyflenwr newydd yn ganolog cyn ei gymeradwyo er mwyn lliniaru unrhyw risgiau o ran y gadwyn gyflenwi. Mae CBAC yn parhau i wella ein proses gyflenwi, ac mae'n ystyried ehangu'r defnydd o holiaduron a datganiadau cyflenwyr sy'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â chydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.

Prosesau Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Caethwasiaeth a Masnachu Pobl

Mae CBAC yn cydnabod pa mor bwysig yw diwydrwydd dyladwy a monitro effaith ac effeithiolrwydd.

Wrth i ni fynd ati i nodi a lliniaru risg rydym wedi buddsoddi yn ein hadnoddau o ran pobl. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar ein swyddogaeth gaffael er mwyn sicrhau bod gennym y capasiti i barhau i ddatblygu ein systemau i:

- Nodi ac asesu unrhyw feysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Lliniaru'r risg o gaethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn ein cadwyni cyflenwi.
- Monitro meysydd risg posibl yn ein cadwyni cyflenwi.
- Diogelu'r rhai sy'n chwythu'r chwiban.

Hyfforddiant

Er mwyn sicrhau bod ein cadwyni cyflenwi a'r corff ei hun yn deall risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl ar lefel uchel, bwriadwn godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol a byddwn yn rhoi hyfforddiant priodol i'n staff. Trafodir dysgu moesegol â staff y Gwasaneth Caffael yn rhan o'u cynllun datblygu personol blynyddol.

Camau Ychwanegol

- Mae CBAC wedi ymrwymo i ddeall ei gadwyni cyflenwi'n well, i gynyddu tryloywder a bod yn fwy cyfrifol am y bobl sy'n gweithio o fewn y cadwyni hynny.
- ran contractau a ddyfarnwyd gennym ac yr ydym yn rhan ohonyn nhw, byddwn yn nodi'r cadwyni cyflenwi hynny lle mae risg canolig i uchel y bydd caethwasiaeth fodern, masnachu pobl, gweithio gorfodol a gweithio trwy orfodaeth, ac unrhyw dorri ar hawliau llafur yn digwydd.
- Gan weithio gyda'n cyflenwyr a chyrff perthnasol eraill, byddwn yn monitro'n agosach y cadwyni cyflenwi hynny y nodwyd y gallent fod yn risg o bosibl ac yn gweithredu'n briodol os oes angen gwneud hynny.

Ian Morgan

Prif Weithredwr a Cyfarwyddwr y Bwrdd

Dyddiad 17 Mehefin 2024